**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher Ionawr 29ain 2014 am 7.30 yh yng Nghanolfan Pandy Tudur

Ymddiheuriadau: Elen Edwards, Cynghorydd Dilwyn O Roberts

Presennol: Ian Griffith (Cadeirydd am y noson), Diane Roberts, Tecwyn Evans, Ifor Edwards, Emlyn Williams, Ann Vaughan, Gwynfor Davies, Gwydion Jones (yn hwyrach), Gwyn Williams (yn hwyrach) a'r Clerc.
Mr Seth Jones – aelod o'r cyhoedd.

Croesawyd bawb i'r cyfarfod gan Ian W Griffith.

21.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

21.2 COFNODION – cafwyd golwg ar gofnodion cyfarfod Ionawr 15fed 2014. Cynigiodd Ann Vaughan ac eiliodd Tecwyn Evans a phleidleisiwyd i gymeradwyo'r cofnodion.

21.3 CYFLOG CLERC – roedd Diane Roberts yn dal i aros am ateb gan Un Llais ynglŷn a hyn.

21.4 MATERION FFYRDD – cafwyd ymateb i'r materion o'r cyfarfod blaenorol. Teimla'r Cyngor Sirol bod digon o finiau halen yn Llangernyw – mae yna 2 yn Glan Collen ac 1 ger yr toiledau. Mae yna fwriad i rhoi draen newydd ar ochr isa y ffordd yn Petryal yn y dyfodol agos. Mae'r adran wedi cyfarfod peiriannydd o'r Adran Strwythurau yn Rhwngyddwyffordd sydd am edrych i ail adeiladu ochr y ffordd ger y bont cyn gynted bydd yr adnoddau yn caniatáu. Maent yn cadw golwg ar y lleoliad yn y cyfamser. Mae'r Adran Llwybrau yn ymchwilio i gyflwr llwybr Pont Faen am Tyn y Caeau.

21.5 MATERION CYNLLUNIO
21.5.1 APEL CYNLLUNIO RHIF 0/40041 Tystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer defnydd sy'n bodoli fel annedd yn Quarry Bungalow, Llangernyw – ymchwiliad cyhoeddus 9 Ebrill 2014. PENDERFYNWYD i beidio anfon sylwadau.
21.5.2 CAIS RHIF 0/40449 Tocio coesau oddi ar 3 onnen aml-goes a 1 sycamorwydden aml-goes, teneuo 1 helygen ac 1 grwp o goed celyn, torri 1 goeden geirios ac 1 sycamorwydden i lawr, tocio 1 gangen oddi ar 1 pefrwydden yn Hendre House, Gwytherin gan Mr Chris Holcombe. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.
21.5.3 CAIS RHIF 0/40463 Estyniad dau lawr i gefn annedd yn Tyn y Ffynnon, Pandy Tudur gan Mr & Mrs G A Jones. Mynegodd Gwydion Jones gysylltiad â'r cais a gadawodd y cyfarfod. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.
21.5.4 Planning Inspectorate – cais gan SP Manweb Cyf am orchymyn yn cymeradwyo caniatad datblygu ar gyfer North Wales Wind Farms Connection Project. PENDERFYNWYD anfon i ddweud ein bod yn pryderu am osod peilonau a ceblau trydan uwch ben ddaear am y rhesymau canlynol:

a) byddai'n cael effaith ar iechyd pobl a phlant - yn arbennig pan mae'r peilonau yn agos at dai mewn pentrefi ac at ysgolion (effaith magnetig yn yr awyr)
b) byddai'n dirywio tir amaethyddol

c) byddai'n effeithio ar werth tai yn yr ardal
ch)credwn nad ydyw yn ffordd 'wyrdd' o gario trydan.

21.6 CYFRANIADAU ARIANNOL – PENDERFYNWYD i gyfrannu £30 at Dawns I Bawb am eu bod yn cynnal gweithdai yn Ysgol Bro Cernyw.

21.7 DARPARIAETH CHWARAE MYNEDIAD AGORED – derbyniwyd adroddiad am weithgareddau'r llynedd a phenderfynwyd i'w basio ymlaen i aelodau'r Cyngor. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cynllun eto eleni a'r gost fydd £342.

21.8 TOILEDAU LLANGERNYW – yn dilyn cyfarfod Fforwm Cynghorau Cymuned a Thref Conwy cafodd y Cadeirydd a'r Clerc air â swyddog a chynghorydd sy'n gyfrifol am gyllid toiledau. Roeddynt yn awyddus i gael trafodaeth am ddatblygu'r toiledau yn Llangernyw a PHENDERFYNWYD bod y Clerc i drefnu cyfarfod â nhw yn fuan.

21.9 BAGIAU TYWOD – cafodd y Clerc ychydig o brisiau bagiau tywod a PHENDERFYNWYD gofyn i Mr Gwynfor Davies, Swn y Nant os oedd ganddo le i gadw bagiau ger yr afon.

21.10 PROSIECT Y PERERINION – roedd Suryiah Evans yn awyddus i gael mwy o hanes yr ardal ar gyfer y byrddau gwybodaeth. PENDERFYNWYD iddi holi Ann Ll Williams ac i gael gwybodaeth am Gapel y Cwm gan Mrs Menna Williams, gwybodaeth am stad Hafodunos gan Ms Antoinette Sandbach, a bod llyfr canmlwyddiant Capel Bethabara ar gael.

21.11 ADOLYGU FFINIAU CYNGHORAU CYMUNED – gwelwyd o'r adroddiad y bydd ward Pandy Tudur yn colli cynghorydd a bydd ratio cynghorydd i aelod yn newid o 1:63 i 1:95. Ar hyn o bryd mae 868 o etholwyr yn ardal y Cyngor Cymuned a rhagwelir cynnydd i 926 ymhen 3 blynedd.

21.12 GWARIO GRANT TUAG AT Y WEFAN – trafodwyd sut i wario'r arian i ddatblygu'r wefan a PHENDERFYNWYD i holi Ceri Llwyd, Llanfair TH os oedd ganddi ddiddordeb mewn tynnu lluniau ar gyfer y wefan; ac i hysbysebu yn Y Gadlas, y Cylchlythyr, ac yn y pentrefi am berson i gasglu gwybodaeth ar gyfer y wefan.

21.13 ADRODDIAD O BWYLLGOR ARDAL CONWY/DINBYCH UN LLAIS – cafwyd adroddiad o'r cyfarfod yn Abergele gan Diane Roberts a Tecwyn Evans. Yn ystod y cyfarfod cafwyd sgwrs ar ddatganoli a'r newidiadau ar y gorwel gan Mr David Davies, Cyngor Sir Ddinbych.

21.14 ADRODDIAD O FFORWM CYNGHORAU CYMUNED A THREF CONWY – cafwyd adroddiad o'r cyfarfod yng Nghyffordd Llandudno gan Gwyn Williams a'r Clerc. Yno hefyd cafwyd eitem am ddatganoli gwasanaethau a chais i'r cynghorau cymuned drafod y pwnc ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

21.15 GWAITH YM MYNWENT GWYTHERIN – PENDERFYNWYD gofyn i Cofgolognau'r Dyffryn os oeddynt yn dymuno rhoi pris am wneud gwaith ym Mynwent Gwytherin. Byddai Tecwyn Evans ac Emlyn Williams yn eu cyfarfod yno.

21.16 CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGHRAIR CYMUNEDOL Cymraeg – hysbyswyd y bydd cyfarfod ym mis Mawrth ac roeddynt yn awyddus i wybod os mai dydd Gwener neu Sadwrn oedd yn fwyaf cyfleus gennym. PENDERFYNWYD mai'r Sadwrn fyddai orau.

21.17 RHEOLAU A CHYFRIFOLDEBAU LLOGWYR CANOLFAN BRO CERNYW – derbyniwyd taflen wybodaeth yn ymwneud â Iechyd a Diogelwch.

21.18 CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD – EICH CYMUNED, EICH DEWIS – PENDERFYNWYD i anfon y linc ar gyfer y wefan i'r aelodau.

21.19 GOHEBIAETH – penderfynwyd i anfon gwybodaeth ar ebost i'r aelodau am y canlynol: Post Office Advisory Council, Gwobrau Cymunedol Uwch Siryf Clwyd, Y Bil Lobïo, Yr Iaith Gymraeg mewn Gwasaneth GIG Lleol, Cyrsiau Un Llais y Gogledd.

21.20 MATERION LLEOL
21.20.1 Angen sgubo ffyrdd gwledig – dail ar allt Plas Matw a Bryn Tân. Angen holi lle mae'r brwsh arbennig a gafwyd i gefn gwlad. Gwterydd rhwng Felin Isa a Cae Coed a waen Cwm Canol (rhwng Cwm Canol a Bryn Tân) wedi cau.
21.20.2 Twll yng nghanol ffordd ar allt Felin Isa – gallu gweld y ffos o danodd.
21.20.3 Angen gwneud gwaith ar ochr y ffordd A548 lle mae cerbydau wedi mynd dros yr ochr i'r cae/afon yn arbennig ger Sgubor Newydd.
21.20.4 Rheolau Sefydlog – cynnig ein bod yn rhoi gwybod i'r cyhoedd drwy'r Cylchlythyr bod gennym Reolau Sefydlog.
21.20.5 Ymddiheurodd Gwyn Williams ei fod wedi methu cyrraedd erbyn dechrau'r cyfarfod a diolchodd i Ian Griffith am gadeirio.
21.20.6 Awgrymu i'r Adran Ffyrdd eu bod yn gosod polion a darn coch arnynt lle mae ffens newydd wedi ei gosod ar dro ger Tan y Ffordd, Pandy Tudur.
21.20.7 Cymru'n Cofio 1914-18 – pasiwyd i roi hyn ar Agenda'r cyfarfod nesaf.
21.20.8 Cyflwr y ffordd yn drychinebus rhwng Plas yn Trofarth a Gell ac i fyny am Tyn Llyn.
21.20.9 Derbyniwyd llythyr gan Ms Antoinette Sandbach yn dweud yr hoffai ddod i gyfarfod o'r Cyngor – efallai yn ystod mis Ebrill os oedd hynny'n hwylus.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.50 yr hwyr.

*Cymeradwywyd y Cofnodion* *Arwyddwyd...Gwyn Williams...... Dyddiad..5 Mawrth 2014*

Community Council Meeting was held on Wednesday 29th January 2014 at 7.30 pm at Pandy Tudur

Apologies : Elen Edwards , Councillor Dilwyn O Roberts

Present : Ian Griffith (Chair for the night ) , Diane Roberts , Tecwyn Evans , Ifor Edwards , Emlyn Williams , Ann Vaughan , Gwynfor Davies , Gwydion Jones ( late ), Gwyn Williams ( later ) and the Clerk .
Mr. Seth Jones - a member of the public .

Ian W Griffith welcomed everyone to the meeting.

21.1 DECLARATION - gave members the opportunity to declare a connection with an item on the Agenda .

21.2 minutes - Minutes of January 15 2014. Ann Vaughan proposed Tecwyn Evans seconded and it was voted to approve the minutes .

21.3 CLEK WAGES - Diane Roberts was still waiting for an answer from One Voice regarding this.

21.4 ROAD ISSUES – response was received to the issues of the previous meeting. County Council feels that there are enough salt bins in Llangernyw - there are 2 in Glan Collen and 1 near the toilets . There are plans to put a new drain on the lower side of the road in Petryal in the near future . The highways department has met an engineer from the Department of Structures in Rhwngyddwyffordd who want to look into rebuilding the side of the road near the bridge as soon as resources permit . They will keep a look at the location in the meantime . The Department is investigating the state of the footpath from Pont Faen to Tyn y Caeau.

21.5 PLANNING
21.5.1 PLANNING APPEAL NO 0 / 40 041 Certificate of lawfulness for existing use as a dwelling at Quarry Bungalow, Llangernyw - April 9, 2014 public inquiry . RESOLVED not to post comments .
21.5.2 APPLICATION NUMBER 0 / 40 449 Remove stems from 3 no multi stemmed Ash trees and 1 no multi stemmed Sycamore tree, reduce1 no Willow and 1 no Holly group, remove 1 no Cherry and 1 no Sycamore tree, remove 1 no limb on 1 no Spruce tree in Hendre House, Gwytherin by Mr Chris Holcombe . RESOLVED to support the application .
21.5.3 APPLICATION NUMBER 0 / 40 463 Two storey extension to rear of dwelling in Tyn Y Ffynnon , Pandy Tudur Mr & Mrs GA Jones. Gwydion Jones expressed interest in the application and left the meeting . RESOLVED to support the application .
21.5.4 Planning Inspectorate - application by SP Manweb Ltd for an order granting development consent for the North Wales Wind Farms Connection Project . RESOLVED to say that we are concerned about placing pylons and electricity cables above ground for the following reasons :
a) would have an impact on children and people's health - especially when the pylons are placed close to homes in villages and to schools ( magnetic effect in the

air )
 b ) would degrade agricultural land
c ) would affect the value of properties in the area
d ) we believe that it is not a ' green' way of carrying electricity .

21.6 FINANCIAL CONTRIBUTIONS - RESOLVED to donate £ 30 to ‘Dance For All’ as they hold workshops at Ysgol Bro Cernyw. .

21.7 OPEN ACCESS PLAY SCHEME - received a report on the activities of last year and decided to pass it on to members of the Council . RESOLVED to support the plan again this year and the cost will be £ 342 .

21.8 LLANGERNYW TOILETS - following the meeting of the Conwy Town and Community Councils Forum the Chairman and Clerk spoke to an officer and councillor with responsibility for toilets finance . They were eager to have a discussion about the development of toilets in Llangernyw and RESOLVED that the Clerk arrange a meeting with them soon .

21.9 SAND BAGS - the Clerk received a few prices for sandbags and RESOLVED to ask Mr Gwynfor Davies , Swn y Nant if he had a place to store the bags near the river .

21.10 THE PILGRIMS PROJECT - Suryiah Evans was eager for more history of the area for the information boards . RESOLVED to inform her to contact Ann Ll Williams and ask Mrs Menna Williams for information about Capel y Cwm and Hafodunos estate information from Ms. Antoinette Sandbach , and Bethabara Chapel centenary book was available .

21:11 BOUNDARY REVIEW OF COMMUNITY COUNCILS - the report states that Pandy Tudur ward will lose one councilor and the councillor to member ratio will change from 1:63 to 1:95 . Currently there are 868 electors in the Community Council area and an anticipated increase to 926 in 3 years .

21:12 SPENDING GRANT RE. THE WEBSITE – it was discussed how to spend the money to develop the website and RESOLVED to ask Ceri Llwyd , Llanfair TH if she was interested in taking photos for the website and also the Clerk to advertise in Y Gadlas , the Newsletter , and in the villages for a person to gather information for the website .

21:13 REPORT OF COMMITTEE Conwy / Denbighshire area ONE VOICE - there was a report of a meeting in Abergele by Diane Roberts and Tecwyn Evans . During the meeting there was a discussion on decentralization and the changes on the horizon by Mr David Davies , Denbighshire CC .

21:14 REPORT OF COMMUNITY AND TOWN COUNCILS CONWY FORUM - there was a report of a meeting in Llandudno Junction by Gwyn Williams and the Clerk . There was also a request for community councils to discuss the item for the ‘devolvement of services to the community councils’ and report back to the next meeting .

21:15 WORK IN GWYTHERIN CEMETERY - RESOLVED Dyffryn Memorials to be asked if they would like to submit a price for work at Gwytherin Cemetery . Tecwyn Evans and Emlyn Williams would meet them there.

21.16 WELSH COMMUNITY ALLIANCE ANNUAL MEETING –we were informed that a meeting would be held in March and were keen to know if a Friday or Saturday we were most convenient . RESOLVED that Saturday would be best.

21.17 BRO CERNYW COMMUNITY CENTRE RULES AND RESPONSIBILITIES - received an information sheet relating to Health and Safety .

21:18 POLICE AND CRIME PLAN - YOUR COMMUNITY , YOUR CHOICE - RESOLVED to send the link for the website to members.

21:19 CORRESPONDENCE - decided to send information via email to members for: Post Office Advisory Council , High Sheriff of Clwyd Community Awards , Lobbying Bill , The Welsh Language in NHS Local Service , Courses One Voice North Wales .

21:20 LOCAL ISSUES
21.20.1 country roads need sweeping - leaves on the hill Plas Matw and Bryn Tân . Need to ask where the special brush obtained for the countryside is. Gutters between Felin Isa and Cae Coed and between Cwm Canol and Bryn Tân need opening.
21.20.2 Pothole in the road on Felin Isa hill - can see the ditch underneath .
21.20.3 Need to work on the side of the A548 road where vehicles have gone over the side of the field / river especially near Sgubor Newydd .
21.20.4 Standing Orders - proposing that we let the public know that we have a Standing Orders via newsletter.
21.20.5 Gwyn Williams apologized that he had failed to reach the start of the meeting and thanked Ian Griffith for being chairman.
21.20.6 Suggest to the Highways Department that they place poles with red reflectors on them where new fencing has been installed on a bend near the Tan y Ffordd , Pandy Tudur .
21.20.7 Wales Remembers 1914-18 - was passed to put this on the Agenda for the next meeting .
21.20.8 Disastrous state of the road between Gell and Plas yn Trofarth and up towards Tyn Llyn .
21.20.9 A letter from Ms Antoinette Sandbach says she would like to attend a meeting of the Council - perhaps during April if that was convenient .

The meeting ended at 9.50 pm.

Minutes were approved Signed ..*Gwyn Williams*.................. Date . .5 March 2014.......